O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif. 257 (Cy.48)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 41, Pentyla i Gyffordd 38, Margam, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *9 Chwefror 2011*

Yn dod i rym *21 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (1984)**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)** yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 41, Pentyla i Gyffordd 38, Margam, Castell-nedd Port Talbot 2011 .

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 21 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith.

ystyr "y darnau o'r draffordd" (*"the lengths of the motorway"*) yw'r darnau o draffordd yr M4 o Gyffordd 41, Pentyla i Gyffordd 38, Margam ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;